# Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

**2019 dccc 2**

## RHAN 6

RHOI CYHOEDDUSRWYDD I FFIOEDD ASIANTIAID GOSOD EIDDO

### 23 Rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd asiantiaid gosod eiddo

(1) Caiff rheoliadau ddiwygio Pennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (c. 15) (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd etc.)—

(a) i'w gwneud yn ofynnol i asiant gosod eiddo sicrhau bod unrhyw hysbysebwr ar-lein yn rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd perthnasol yr asiant, i'r graddau y mae'r ffioedd hynny'n ymwneud ag anhedd-dai yng Nghymru;

(b) i ganiatáu i fwy nag un gosb gael ei gosod ar asiant gosod eiddo mewn perthynas â'r un achos o dorri dyletswydd yn y Bennod honno, i'r graddau y mae'r toriad yn ymwneud ag anhedd-dai yng Nghymru.

(2) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "hysbysebwr ar-lein", mewn perthynas ag asiant gosod eiddo, yw person sy'n hysbysebu, ar y fewnrwyd, wasanaethau y mae'r asiant yn eu cynnig mewn perthynas ag anhedd-dai yng Nghymru;

(b) mae i "anhedd-dy", "asiant gosod eiddo" a "ffioedd perthnasol" yr un ystyron â "dwelling-house", "letting agent" a "relevant fees" ym Mhennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I2** A. 23 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Adran 23.